prospect

Degawd o frwydro dros gydraddoldeb yn y gwaith

Mae Prospect wedi ymrwymo'n gryf i gydraddoldeb i'n holl aelodau. Mae gan ein cynrychiolwyr undeb enw da am herio anghydraddoldeb yn y gweithle ac ennill...

prospect.org.uk/equality10

Degawd o frwydro dros gydraddoldeb yn y gwaith

Pan fydd angen, byddwn yn defnyddio'r gyfraith yn gadarn i frwydro yn erbyn gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau.

Yr ydym wedi edrych yn ôl ar rai o'r uchafbwyntiau cyfreithiol i aelodau Prospect yn ystod y degawd diwethaf.

2010

4 dyfarnwr pêl-droed cynorthwyol yn ennill eu hachos o wahaniaethu ar sail oedran pan fu i'r tribiwnlys ddyfarnu bod oedran ymddeol sefydlog o 48 yn wahaniaethol.

2012

Graham Dean yn ennill ei hawliad yn erbyn y Swyddfa Gartref, wedi i'r tribiwnlys ganfod bod y dull canolfan asesu ar gyfer dyrchafiad yn gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr hŷn a BAME.

2013

Dros 180 o staff yn y Swyddfa Eiddo Deallusol yn cael cynnydd o £8,000 neu hyd at uchafswm y raddfa ar ôl i achos cyflog cyfartal hirfaith gael ei setlo y diwrnod cyn gwrandawiad y Tribiwnlys Cyflogaeth.

2014

Enillodd peiriannydd addasrwydd i hedfan a gafodd ei ddiswyddo gan yr Awdurdod Hedfan Sifil am wrthod adleoli 120 milltir o'i gartref ei hawliad tribiwnlys cyflogaeth am ddiswyddo annheg a gwahaniaethu ar sail anabledd.

Roedd gwrthod gadael i Lisa Ward weithio'n rhan amser ar ôl dychwelyd o absenoldeb mamolaeth yn wahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw.

2015

Aelod yn setlo ei hawliad am erledigaeth ychydig cyn gwrandawiad tribiwnlys 12 diwrnod. Roedd hi wedi cwyno am aflonyddu rhywiol yn erbyn ei rheolwr llinell a phan gafodd ei chŵyn ei chadarnhau, roedd hi wedi cael ei symud i swydd wahanol. Roedd y setliad nid yn unig yn talu am ei chyflog coll ond hefyd yn nodi camau gweithredu i gael ei gyrfa yn ôl ar y trywydd iawn.

2016

Tribiwnlys yn canfod bod diswyddiad Paul Pigont gan BT yn annheg a'i fod gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd.

2017

Y Goruchaf Lys yn cadarnhau'r egwyddor o wahaniaethu anuniongyrchol mewn achos nodedig gan Mohammad Naeem yn herio gwahaniaethu ar sail hil a chrefydd.

Canfuwyd bod Ann Downie, Rheolwr AD, wedi cael ei diswyddo'n annheg ac wedi dioddef gwahaniaethu ar sail rhyw pan gafodd ei diswyddo am beidio â chytuno i gynyddu ei horiau.

76 o fenywod yn dwyn hawliadau tribiwnlys yn erbyn y Swyddfa Dywydd am gyflog cyfartal, gan arwain at gytundeb tâl newydd yn gwella cyflog y rhan fwyaf o'r staff.

Enillodd Amy Arnold gŵyn am erledigaeth anghyfreithlon yn erbyn UKPN pan wrthodwyd dyrchafiad iddi ar ôl iddi wneud cwyn yn llwyddiannus ynghylch cyflog cyfartal.

2018

Tribiwnlys yn canfod y gwahaniaethwyd yn erbyn Niki Savvides ar sail beichiogrwydd pan fethodd ei chyflogwr, yr Amgueddfa Brydeinig, â chynnig swydd iddi ar ddiwedd ei chontract cyfnod penodol.

Cafodd dau hawliad tribiwnlys ar wahân eu setlo y tu allan i'r llys ar ôl i aelodau gyflwyno achosion yn cwyno am gam-drin Islamoffobaidd yn y gwaith.

2019

Enillodd yr economegydd, Olwen Renowden, ei hawliad yn erbyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, pan gafodd ei diystyru o blaid dynion yng nghyswllt dyrchafiad i raddfa uwch.

Lizzie Walmsley yn ennill ei hawliad tribiwnlys ar ôl iddi gael ei herlid gan ei rheolwr am godi llais ynghylch aflonyddu rhywiol ac ymgyrch MeToo.

Tribiwnlys yn dyfarnu bod DVSA wedi methu â gwneud addasiadau rhesymol wrth i hyfforddwr gyrru anabl, Philip Hurst, wneud cais am waith.

2020

Cyfryngu barnwrol llwyddiannus yn arwain at setliad i chwe aelod a heriodd system asesu perfformiad y Weinyddiaeth Amddiffyn a oedd yn codi materion gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail oedran, statws rhan amser ac anabledd.

Aelod yn setlo'i achos tribiwnlys o aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

prospect

I gael manylion yr achosion hyn a mwy, ewch i

prospect.org.uk/equality10